

TRANSCRIPT OF VIDEO (WELSH LANGUAGE VERSION)

<https://www.bbc.co.uk/academy/en/articles/art20171019102301496>

Straeon Newyddion ar gyfer llwyfannau gwahanol

Rych chi wedi dod o hyd i'ch newyddion – ac rych chi'n gwybod pa stori yr hoffech chi drafod

Rydych chi wedi gwirio'r ffeithiau – ac wedi siarad â'r bobl sy'n rhan o'r stori.

Nawr mae angen i chi feddwl sut bydd y stori yn gweithio fel fideo, fel stori sain ar gyfer radio – neu bodlediad – neu ar-lein fel stori destun ar wefan.

Ar gyfer teledu neu fideo, mae'n rhaid i chi feddwl sut bydd y stori'n edrych ar sgrin, a yw'r lluniau'n effeithiol, ydyn nhw'n adrodd rhan o'r stori i chi? Efallai y byddwch yn dewis defnyddio graffeg neu destun i egluro'r stori. Gallwch greu bwrdd stori – os hoffech chi

Ar gyfer radio, mae angen i chi feddwl sut gallwch adrodd y stori heb luniau. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio effeithiau sain neu ddisgrifio golygfa am nad oes lluniau i helpu'r gwrandäwr.

Ac ar gyfer stori ar-lein, mae angen i chi gael llun neu ddelwedd gref i roi ar ben y dudalen, yn ogystal â phennawd da. Yna bydd angen ychydig frawddegau i grynhoi'r stori am ei bod yn bosib na fydd llawer o bobl yn darllen yr eitem gyfan. Gallwch gynnig rhagor o fanylion nes ymlaen, a gallwch gynnwys clipiau fideo neu glipiau sain byr hyd yn oed.

A chofiwch fod angen sgriptiau Clir, Cryno a Chywir

Mae rhagor yn ein dosbarthiadau meistr.

Felly, dyma'ch cyfle chi i ddweud eich stori ar y Radio, mewn Fideo, neu ar-lein, neu hyd yn oed yn well – fersiwn ar gyfer y 3 o bosib – pob lwc a mwynhewch.